Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar

Reoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 7 Mawrth 2007.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ynghylch:

- Sut y byddai aelodau'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cael eu penodi a rôl y Cynulliad yn ei gyfanrwydd yn y broses o graffu ar benodiadau o'r fath o dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mewn ymateb yn y Pwyllgor, gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Llywodraeth Cynulliad Cymru fyddai'n gwneud y penodiadau a'r Uned Penodiadau Cyhoeddus fyddai'n trin y broses drwy hysbyseb agored a phroses gyfweld. Ni ellid rhagweld y byddai'n wahanol mewn unrhyw ffordd i'r broses a fabwysiadwyd ar gyfer penodi Panel Pensiynau. Nododd y Gweinidog eu bod yn cysylltu ag enwebeion y Pwyllgorau Pwnc ar hyn o bryd gyda phenodiadau cyhoeddus ac addawodd roi gwybod i'r Pwyllgor am rôl bosibl Aelodau'r Cynulliad yn y broses o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo'r Rheoliadau fel y'i drafftiwyd.

Ann Jones AC
Cadeirydd